Canllawiau Copïo
y GIG yng Nghymru

Mae Trwydded y CLA ar gyfer y GIG yng Nghymru yn caniatáu i unigolion awdurdodedig wneud Copïau Papur neu Ddigidol o'r mwyafrif o lyfrau, cylchgronau, newyddlenni a chyfnodolion yn ogystal ag o gyhoeddiadau digidol dethol yn amodol ar rai telerau ac amodau penodol.

Gellir gwneud copïau o gyhoeddiadau gan gynnwys y rheini yr ydych chi'n tanysgrifio iddynt ac o erthyglau neu doriadau o'r wasg a ddarperir gan gyflenwyr allanol trwyddedig lle mae ffi hawlfraint wedi'i dalu (e.e. asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus neu doriadau o'r wasg neu'r Llyfrgell Brydeinig).

Mae'r drwydded yn caniatáu:

- Llungopïo
- Sganio
- Copïo deunydd digidol nad yw wedi'i ddiwygio e.e. ffeil PDF o danysgrifiadau electronig neu erthyglau wedi'u sganio a gaiff eu cylchredeg drwy ebost.

Math o gyhoeddiad

- Llyfrau
- Cylchgronau
- Y Wasg Fasnachol
- Newyddiaduron
- Copïau â'r ffi hawlfraint wedi'i dalu
- Cyfnodolion
- Adroddiadau cyfreithiol
- Cyfrolau cyfeirio
- Toriadau o'r wasg a geir gan asiantaeth toriadau'r wasg
- Rhai fersiynau digidol o'r uchod (gweler cyhoeddiadau Digidol isod) a dogfennau digidol gwreiddiol eraill

I ba bwrpas gaf i ddefnyddio'r copïau?

Cyfathrebu mewnol, er enghraifft:

- Er mwyn rhannu gyda chydweithwyr mewn cyfarfodydd neu sesiynau briffio
- I bwrpas hyfforddiant mewnol e.e. clybiau cyfnodolion, etc
- Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch neu Amgylcheddol
- Ar gyfer ymchwil a datblygu
- Ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau
- Gwybodaeth am salwch, cyflwr neu driniaeth er budd claf

Faint y gellir ei gopïo?

Ar bob achlysur gallwch gopïo hyd at 5% neu bennod unigol o lyfr neu hyd at ddwy erthygl o gyfnodolyn, pa bynnag un sydd fwyaf. Os yw'r rhifyn neu ran helaeth ohono'n ymwneud ag un thema benodol, gellir copïo unrhyw nifer o erthyglau sy'n ymwneud â'r thema benodol honno.

Pwy gaiff wneud a derbyn copïau?

Unrhyw unigolyn awdurdodedig, ymgynghorwyr unigol neu weithwyr asiantaeth, cyflogeion a gweithwyr unrhyw SAU neu Ddarparwyr Gwasanaeth Llyfrgell sydd ar leoliad dros dro neu barhaol neu sy'n darparu gwasanaethau llyfrgell i'r GIG yng Nghymru, ond dim ond pan fyddant yn ymwneud â busnes y Trwyddedai neu yn darparu gwasanaethau ymgynghori iddo a myfyrwyr unrhyw SAU sydd ar leoliad dros dro neu barhaol â'r Trwyddedai ar gyfer hyfforddiant a / neu dderbyn cyfarwyddyd fel rhan o'u cwrs astudio yn eu SAU ond at bwrpas hyfforddi a chyfarwyddyd o'r fath yn unig. Bydd y term 'ymgynghorwyr' hefyd yn cynnwys yr aelodau hynny o Bwyllgor Dynodedig (nad ydynt fel arall yn Unigolion Awdurdodedig) pan fyddant yn gweithredu mewn perthynas â gweithgareddau'r Pwyllgor Dynodedig. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth - caiff copïau eu gwneud a'u dosbarthu o fewn GIG Cymru yn unig ac nid o fewn y GIG yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban nag Ynys Manaw.

Cadw copïau Digidol

Cewch gadw Copïau Digidol (e.e. delweddau wedi'u sganio neu ddogfennau PDF sydd wedi'u derbyn drwy ebost) ar eich cyfrifiadur personol neu ofod personol ar y gweinydd. Yn ogystal caiff copïau trwyddedig unigol eu dal ar

fewnrwyd eich sefydliad at ddefnydd defnyddwyr awdurdodedig am gyfnod o hyd at 30 o ddiwrnodau.

Cyhoeddiadau rhyngwladol
Mae gan CLA gytundebau ag asiantaethau cyfatebol yn y mwyafrif o diriogaethau tramor sy'n caniatáu i gyhoeddiadau a chynnwys Rhyngwladol gael eu copïo dan drwydded y CLA. I gael rhestr lawn o'r asiantaethau tramor hyn a'r gwledydd a gynhwysir ewch i www.cla.co.uk

Gweithiau sydd wedi'u Heithrio
Nodwch fod rhai teitlau a chyhoeddiadau wedi'u heithrio o'r drwydded a bydd angen i chi gysylltu â deiliad yr hawlfraint yn uniongyrchol am ganiatâd i'w copïo. Ceir rhestr o'r eithriadau hyn ar ein gwefan http://www.cla.co.uk/excludedworks.php

Cyhoeddiadau Digidol
Mae copïo cyhoeddiadau electronig wedi'i gyfyngu i gyhoeddiadau a gyhoeddwyd gan Gyhoeddwyr Deunydd Digidol Cyfranogol, a cheir rhestr ohonynt ar ein gwefan http://www.cla.co.uk/cdl_publicadmin_publishers.php

Rhagor o wybodaeth
Cysylltwch â Gwasanaethau Cwsmeriaid CLA Ffôn 020 7400 3126 / 3127 Ebost customers@cla.co.uk Gwe http://cla.co.uk/about_whotocontact.php

Bwriedir y ddogfen hon fel canllaw yn unig ac nid yw'n cymryd lle telerau trwydded y CLA eu hunain, y dylid eu darllen yn llawn. Pe bai anghydfod yn codi rhwng y ddau, y drwydded fyddai'r awdurdod terfynol.

Yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint
Saffron House, 6-10 Kirby Street, London, EC1N 8TS
Ffôn 020 7400 3100 Ffacs 020 7400 3101 Ebost cla@cla.co.uk www.cla.co.uk